Dyma ddiwedd ar hanner tymor prysur arall a blwyddyn diddorol iawn ym mywyd Ysgol Glan Conwy. Cafwyd amrywiaeth eang o weithgareddau ac mae pawb yn llwyr haeddu cael seibiant dros yr haf cyn dechrau ar flwyddyn newydd.
This marks the end of another busy half term and a very interesting year in the life of Ysgol Glan Conwy. We have enjoyed a wide variety of activities, and everyone thoroughly deserves a well-earned break over the summer before the start of a new school year.

Twrnament Criced
Llongyfarchiadau i'r plant aeth i gystadlu mewn twrnament criced yng Nghlwb Criced Llandrillo-yn-Rhos dechrau'r hanner tymor. Profiad gwych iddynt. Diolch i Joe Lambe, Hyfforddwr Criced Conwy am gynnal y twrnament ac i ddod yma i gynnal sesiynau criced i ddysgwyr blwyddyn 2 hyd 6.
Congratulations to the children who took part in a cricket tournament at Rhos-on-Sea Cricket Club at the beginning of the half term. It was a fantastic experience for them. Thank you to Joe Lambe, Conwy Cricket Coach, for organising the tournament and for visiting the school to deliver cricket coaching sessions for pupils in Years 2 to 6.

Ymweliad Sŵ Fynyddig
Bu i ddysgwyr dosbarth Bedwen Arian fwynhau eu hymweliad â'r Sŵ Fynyddig ym Mae Colwyn. Digon o chwilio am anifeiliaid gwahanol a rhyfeddu ar yr amrywiaeth o anifeiliaid sydd yno erbyn hyn.
Pupils from Dosbarth Bedwen Arian enjoyed their visit to the Welsh Mountain Zoo in Colwyn Bay. They had great fun searching for different animals and were amazed by the wide variety of wildlife now at the zoo.

Gweithdy Stori a Chwedl
Cafodd dysgwyr dosbarth Onnen bnawn gwych yng nghwmni Rosie Collier. Bu iddynt wrando ar stori'r Garrog ymysg gweithgareddau eraill megis drama a chelf. Diolch Rosie.
Pupils from Dosbarth Onnen enjoyed a wonderful afternoon with Rosie Collier. They listened to the story of the Garrog (a Welsh mythical creature) and took part in a range of activities, including drama and art. Thank you, Rosie.

Athletau'r Urdd a'r Clwstwr
Braf oedd cael mynd a plant i gystadlu yn Athletau yr Urdd ym Mharc Eirias ac yna yn mabolgampau'r clwstwr yn Ysgol Bro Gwydir ganol Mehefin. Bu i'r plant i gyd a'r staff fwynhau'r profiadau a'r croeso gan ysgolion eraill yn yr athletau.
It was wonderful to take our pupils to compete in the Urdd Athletics competition at Eirias Park and later in the cluster sports day at Ysgol Bro Gwydir in mid-June. Both the children and staff thoroughly enjoyed the experiences and the warm welcome from the other schools.

Mabolgampau

Cawsom ein mabolgampau hwyliog eto eleni gyda'r plant i gyd yn cystadlu ar wahanol weithgareddau. Braf oedd gweld campau newydd yn ein diwrnod y tro yma megis Boccia sydd yn sgil gwahanol iawn i'r athletau arferol. Diolch i'r rhieni a ddaeth i gefnogi er i ni ei gwtogi a'i newid i'r bore oherwydd y tywydd crasboeth. Bore llwyddiannus iawn. Da iawn pawb.

We once again enjoyed a fun-filled Sports Day, with all pupils taking part in a variety of activities. It was especially pleasing to introduce new events this year, including Boccia, which provided a different challenge from traditional athletics.

Thank you to all the parents who came along to support us. Although we had to shorten the event and move it to the morning because of the extremely hot weather, it was a very successful and enjoyable morning. Well done, everyone!

Ffair Haf

Cynhaliwyd ein Ffair Haf ar bnawn ein mabolgampau. Cawsom noson braf gyda amrywiaeth o weithgareddau a stondinau. Diolch i'r Cyfeillion a'r staff am drefnu ac am gefnogaeth y rhieni i'w wneud yn noson llwyddiannus. Gwnaethpwyd bron i £700 ar y noson sydd yn wych ar gyfer cefnogi'r ysgol.

*Our Summer Fair was held on the afternoon of Sports Day. It was a lovely evening with a wide range of activities and stalls. Thank you to the Friends of the School and the staff for organising the event, and to all the parents for their support in making it such a success. We raised almost **£700**, which is a fantastic amount and will greatly benefit the school.*

Pontio

Cafodd dysgwyr blwyddyn 6 blas ar eu hysgolion uwchradd ar ddiwrnodau pontio fis yma. Maent oll yn edrych ymlaen i symud i'w hysgolion newydd mis Medi.

Our Year 6 pupils had the opportunity to experience life at their new secondary schools during this month's transition days. They are all looking forward to starting their new schools in September.

Gweithdy Cerdd

Diolch i Gwawr Mills am gynnal gweithdai cerdd gwych gyda'r plant. Mae Gwawr yn gweithio ar brosiect blwyddyn gyda plant hynaf yr ysgol ar ddysgu cerddoriaeth, offerynnau ac alawon traddodiadol. Rydym yn gyffrous o gael y cyfle yma i ddatblygu sgiliau cerddorol a dysgu am ddiwylliant traddodiadol Cymreig dros y flwyddyn nesaf.

Many thanks to Gwawr Mills for delivering excellent music workshops with the children. Gwawr is leading a year-long project with our oldest pupils, developing their musical skills while introducing them to traditional Welsh music, instruments and melodies. We are delighted to have this opportunity to develop the children's musical talents while learning more about Wales' rich musical heritage over the coming year.

Gweithdy Celf

Bu dosbarth Bedwen Arian yn ffodus o dderbyn gweithdy celf gyda'r artist amgylcheddol, Tim Pugh trwy Shirley Williams Swyddog Cyfuno Conwy. Pnawn diddorol yn creu celf y môr trwy

ddefnyddio plastig a gasglwyd o'r môr.
Dosbarth Bedwen Arian were fortunate to take part in an art workshop led by environmental artist Tim Pugh through Shirley Williams, Conwy Integration Officer. It was a fascinating afternoon creating sea-themed artwork using plastic collected from local beaches.

Cynllun Teithio Llesol

Braint oedd i'n dysgwyr blwyddyn 6 gael mynd lawr i weld y datblygiad cyffrous o'r llwybr a'r bontydd fydd yn arwain o Glan Conwy i Gyffordd Llandudno ac i Gonwy. Roedd hefyd yn fraint i'n Cyngor Ysgol gael trafod a bod yn ran o ddewis enwau i'r llwybr a'r bontydd gyda Cadeirydd y llywodraethwyr a'n Cynghorydd lleol, Mrs Sharon Doleman. Felly roedd cerdded rhan o Lwybr yr Adar a cherdded dros Bont Sanffraid a Phont y Brwyn am y tro cyntaf yn brofiad fythgofiadwy i'n dysgwyr ac i'w hathrawon, Mrs Rhian Evans a Miss Heather Owens cyn y seremoni agoriadol yn mis Awst. Diolch am y gwahoddiad.

Our Year 6 pupils were privileged to visit the exciting new Active Travel route and bridges that will link Glan Conwy with Llandudno Junction and Conwy. It was also a privilege for our School Council to take part in discussions and help choose names for the route and bridges alongside the Chair of Governors and our local councillor, Mrs Sharon Doleman.

*Walking along part of **Llwybr yr Adar** and crossing **Pont Sanffraid** and **Pont y Brwyn** for the very first time was an unforgettable experience for our pupils and their teachers, Mrs Rhian Evans and Miss Heather Owens, ahead of the official opening ceremony in August.*

Thank you very much for the invitation.

Diwedd Blwyddyn

Mae diwedd tymor yr Haf yn adeg digon trist mewn un ffordd oherwydd ei fod yn ddiwedd cyfnod i rai o'n disgyblion – diwedd cyfnod yn yr ysgol gynradd cyn mentro i'r ysgol uwchradd ym mis Medi. Cawsom wasanaeth ffarwelio arbennig ar ddydd Mercher olaf y tymor ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 a'u rhieni. Dymuniadau gorau iddynt oll yn eu hysgolion uwchradd.

The end of the summer term is a bittersweet time, as it marks the end of primary school for some of our pupils before they begin the next exciting chapter at secondary school in September.

We held a special farewell service on the final Wednesday of term for our Year 6 pupils and their families. We wish them all the best of luck in their new adventures!